

Gwreiddio hawliau plant mewn ymarfer pob dydd

Beth mae eich fîm o staff a rhanddeiliaid yn gwybod am hawliau plant? What do your staff and stakeholders know about children's rights? ie are you aware that children have rights and how important is it that children know?

Mae ein holl staff a rhanddeiliaid yn ymwybodol bod gan blant hawliau, ac mae'r staff yn deall pa mor bwysig yw hi i'r plant wybod bod ganddyn nhw hawliau. Dyw llawer o'r plant ddim yn ymwybodol beth yw eu hawliau, a dyw eraill ddim yn ymwybodol bod ganddyn nhw hawliau o gwbl. Mae'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl blant yn hapus ac yn ddiogel yn ein lleoliad, a bod eu hanghenion iechyd yn derbyn y sylw gorau posib pan fyddan nhw gyda ni.

Sut mae sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn? How do you ensure equal opportunities for all of your children? What does this look like day to day in the setting? How do you establish how children feel when they come in to the setting?

Pan fydd y plant yn cyrraedd, bydd aelod o staff yn eu cyfarch ac yn gofyn iddyn nhw sut maen nhw neu sut maen nhw'n teimlo. Mae gennym ni gân feithrin i holi'r plant sut maen nhw'n teimlo a cherrig hwyliau gydag wynebâu ac emosiynau i'r plant edrych arnyn nhw, eu trafod, neu ddewis p'un sydd fwyaf addas i'w hwyliau. Petai aelod o staff yn sylweddoli bod plentyn yn teimlo'n drist/gyffrous/ofnus/hapus iawn bydden nhw'n cyfarch y plentyn yn briodol, yn ôl yr emosiwn dan sylw, ac yn trafod pam roedden nhw'n teimlo fel yna, os oedd y plentyn yn hapus i wneud hynny.

Sut mae dathlu'r gwahaniaethau ymhlith plant yn eich lleoliad? How do you celebrate diversity amongst all of your children, staff and stakeholders? What do your children see that helps them 'Be what they can see?'

Rydyn ni'n lleoliad amrywiol. Rydyn ni'n dathlu amrywiaeth trwy gydnabod bod ein holl blant yn wahanol, ac yn dod o ystod eang o gefndiroedd a chartrefi. Rydyn ni'n annog y plant a'u teuluoedd i rannu eu profiadau/diwylliannau gyda phobl eraill.

Oes angen i chi ddatblygu eich dealltwriaeth eich hun o wahanol grefyddau neu ddiwylliannau, i sicrhau eich bod chi'n eu cynrychioli nhw'n gywir? Do you need to develop your understanding of different religions to ensure everyone's religion is represented authentically? How and what do you celebrate in the calendar? Have you seen Dewch i Ddathlu / Come and Celebrate – a resource to help you celebrate world religions – it's available on MM academi..or e mail Ffion.Davies@meithrin.cymru and ask for a link – available in Welsh and English!

Yn Cwtch Pentrebaen rydyn ni'n dathlu crefyddau a gwyliau mae ein plant yn ymwybodol ohonynt, sydd wedi cynnwys y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, y Nadolig, Eid, y Pasg, Diwali a Gŵyl Ddewi. Oherwydd oed ein plant, dydyn ni ddim yn cyflwyno gwyliau na fyddai neb o'n plant yn ymwybodol ohonynt, neu sydd ddim yn rhan o'u profiad. Os bydd plentyn yn mynegi diddordeb mewn gŵyl, diwylliant neu grefydd, byddwn ni'n archwilio'r diddordeb hwnnw.

Sut mae sicrhau bod pob plentyn yn teimlo bod gwerth i'w hunaniaeth unigol? How do you ensure that every child feels their worth and that there is recognition of their unique identity? Consider home links.

Rydyn ni'n teimlo'n gryf y dylai pob plentyn gael eu gwerthfawrogi, a bod hynny'n digwydd yn Cwtch Pentrebaen. Rydyn ni'n annog y plant i gael llais trwy rannu eu barn a'u syniadau gydag eraill. Lle bo modd, byddwn ni'n archwilio diddordebau a chysyniadau'r plant. Rydyn ni'n aml yn defnyddio mapiau meddwl i gofnodi syniadau'r plant ar destun neu bwnc. Bydd y mapiau meddwl hyn yn cael eu defnyddio i lywio cynllunio yn y dyfodol.

Sut mae hybu ethos gynhwysol sy'n gwerthfawrogi diwylliant amrywiol Cymru mewn cyd-destun dilys? What do you do to encourage an ethos of equality that appreciates Wales's diverse culture in an authentic context? Consider posters, books, visitors or visits and events in the calendar.

Mae rhieni a gweithwyr proffesiynol o'n hardal leol wedi ymweld â'r lleoliad i rannu eu gwybodaeth, eu profiadau a'u diwylliannau, mae hynny wedi cynnwys rhiant o gefndir Sîc yn siarad â'r plant am wisg draddodiadol, bwyd a gwyliau. Rydyn ni'n dathlu diwylliant traddodiadol Cymru bob dydd trwy'r iaith Gymraeg, caneuon Cymraeg, dathlu ein hardal leol a chymryd rhan yn yr Eisteddfod leol a dathliadau Gŵyl Ddewi.

Sut mae sicrhau bod pob teulu'n teimlo croeso? Ydych chi'n sicrhau bod y ffurflenni, yr arddangosfeydd, yr wybodaeth a'r iaith a ddefnyddir yn cynnwys ee rhieni sengl, rhieni o'r un rhyw, rhieni mabwysiadol? How do you ensure that all families are welcomed? Do you ensure that the information provided for parents/ carers (and the language you use includes) are open and welcoming to all– eg single parents, same sex parents, adopted or looked after children new families to your community.

Rydyn ni'n feithrinfa gynhwysol lle mae croeso i bob teulu, rydyn ni'n credu mewn cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaethau mewn amrywiol ffyrdd, megis gwahodd aelodau o'r teulu i'r lleoliad i rannu profiadau, bwydydd, crefyddau neu dathliadau gydag eraill, ac anogir y plant i drafod a rhannu eu profiadau eu hunain.

Oes yna unrhyw blant yn eich lleoliad sy'n cymryd cam yn ôl? Beth allwch chi wneud i'w cynnwys a'u cefnogi? Are there children in your setting that take a step back and are reluctant to participate? How do you ensure that their voices are heard and understood? Both vocal and without words.

Mae gennym ni nifer bach o blant sydd weithiau'n amharod i gyfranogi neu'n rhy swil i godi llais. Caiff y plant hyn eu cefnogi wrth i'r staff addasu meintiau grwpiau neu siarad â nhw'n unigol. Bydd y staff yn aml yn canfod beth sydd o ddiddordeb i'r plentyn dan sylw er mwyn annog cyfranogiad, a sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth gymryd rhan. Ni fydd plant sy'n dal heb fod yn awyddus i gyfranogi byth yn cael eu gorfodi i wneud hynny, a gallant ddewis beth hoffon nhw ei wneud.

Sut mae gwrandio ar lais y plentyn? How do you listen to the voice of the child? How much time do children get to just sit and talk

Rydyn ni'n gwrandio ar lais y plentyn trwy fapiau meddwl a rhoi amser i'r plant siarad a phrosesu cwestiynau. Mae gennym ni ardaloedd tawel, clyd mewn rhannau o'r feithrinfa, y gall plant fynd iddyn nhw i gael amser allan o gyffro a phrysurdeb bywyd y feithrinfa. Mae'r plant yn cael amser ar hyd y diwrnod i siarad a rhannu profiadau personol, ond mae'r amser byrbryd yn ddigwyddiad cymdeithasol lle mae'r plant a'r staff yn sgwrsio ac yn rhannu profiadau personol. Bydd y staff bob amser yn cymryd amser i wrando ar beth sydd gan y plant i'w ddweud.

Sut mae ymateb i ddiddordebau, hoff bethau a chas bethau plant? How do you respond to children's interests ...and things they don't like?

Dilynir diddordebau'r plant lle bynnag y bo modd, ac mae ein dull cynllunio yn benagored er mwyn gallu newid cyfeiriad ar sail diddordebau'r plant neu eu diffyg diddordeb mewn pwnc neu weithgaredd. Bydd gan y plant ystod eang o weithgareddau i ddewis ohonynt bron bob amser, ac os nad ydyn nhw am gyfranogi, rydyn ni'n eu hannog i ddewis rhywbeth arall, gwylio eraill yn cymryd rhan os hoffen nhw wneud hynny, neu fynd i ardal dawel os hoffen nhw. Rydyn ni'n parchu penderfyniad y plentyn.

Ydych chi'n rhoi adborth i blant ar safbwyntiau maen nhw wedi'u rhannu? How do you respond to children's contributions?

Mae'r plant yn cael eu hannog yn rheolaidd i gyfrannu at y cynllunio a'r dysgu. Caiff mapiau meddwl eu creu yn rheolaidd o syniadau a meddyliau'r plant, fel arfer ar ddechrau pwnc sydd o ddiddordeb. Bydd hynny wedyn yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllunio, fel bod plant yn gallu archwilio'r pwnc yn y modd maen nhw'n dewis gwneud.

Wnaethoch chi rai o'r gweithgareddau ddangoswyd i chi gan swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd Plant? Did you carry out any of the activities shown to you by the officers from The Children's Commissioner's Office? Eg the activity where children draw around themselves on a large piece of paper and then put into the body shape objects that represent – being safe, healthy and happy?

Dydyn ni ddim eto wedi defnyddio'r gweithgareddau gafodd eu harddangos gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant, ond rydyn ni wedi bod yn llawer mwy ymwybodol o hawliau'r plant a'r termau diogel, hapus a iach. Rydyn ni'n credu y gallai gwneud gweithgareddau tebyg yn rheolaidd fod o fudd i'r plant a'r staff yn Cwtch Pentrebaen.

Ydych chi'n dangos i'r plant sut rydych chi wedi defnyddio beth ddwedon nhw i wneud gwahaniaeth/gynllunio ar gyfer y dyfodol? How do you show children that their contributions/ interests are reflected in your planning...or activities for that day? How do you evaluate how effective these contributions are?

Mae mapiau meddwl sy'n cael eu cwblhau gyda'r plant ar sail eu gwybodaeth, eu syniadau a'r cwestiynau sydd ganddyn nhw ar destun/bwnc yn bwydo'n uniongyrchol i'r cynllunio, ac o ganlyniad, i'r gweithgareddau rydyn ni'n eu gwneud. Mae'r staff yn cynnal cyfarfodydd tîm lle caiff diddordebau, gweithgareddau a'r plant eu trafod, fel bod y staff yn cael cyfle i fyfyrion ar ymarfer a chynllunio'r camau nesaf, gydag anghenion a diddordebau'r plant yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae'r plant yn aml yn cael cyfleoedd i fyfyrion ar y dysgu trwy siarad am beth maen nhw wedi'i wneud, edrych ar luniau neu wyllo fideos.